# Warm This Winter

## Grantiau i gefnogi grwpiau llawr gwlad i weithredu ar yr argyfwng ynni

Rhwydwaith o wneuthurwyr newid yw Cynnes Gaeaf Yma sy'n mynnu bod y llywodraeth yn gweithredu nawr i helpu pobl sy'n cael trafferth gyda biliau ynni'r gaeaf hwn ac i sicrhau bod gennym gyd fynediad at ynni fforddiadwy yn y dyfodol. Lansiwyd yr ymgyrch yn 2022, ac mae'n canolbwyntio ar bedwar gofyniad clir sydd wedi'u hanelu at y llywodraeth:

→ Cymorth brys i'r cartrefi sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan yr argyfwng ynni
→ Rhaglen uchelgeisiol, genedlaethol ar effeithlonrwydd ynni ac ôl-osod cartrefi
→ Cyflwyno cynhyrchu ynni adnewyddadwy, mewn cytgord â natur
→ Diwedd i ehangu olew a nwy alltraeth

Mae clymblaid Gynnes Gaeaf Yma yn dwyn ynghyd ystod eang o grwpiau a sefydliadau sydd wedi ymrwymo i ddiwygio ein system ynni toredig yn ystyrlon. Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r rhan gwbl hanfodol y mae grwpiau llawr gwlad yn ei chwarae wrth ddod â phobl at ei gilydd i adeiladu pŵer a sbarduno newid parhaol a arweinir gan y gymuned. Byddem wrth ein bodd yn cefnogi mwy o grwpiau i fod yn rhan o'r rhwydwaith hwn, gan wneud cysylltiadau newydd, a chydweithio i ddangos a dyfnhau cefnogaeth y cyhoedd i system ynni deg mewn cymunedau ledled y DU.

Hyd yn hyn, mae'r ymgyrch wedi cydlynu Diwrnod Gweithredu cenedlaethol, a welodd dros 40 o ddigwyddiadau ar hyd a lled y wlad, wedi derbyn cefnogaeth gan grŵp trawsbleidiol o ASau, ac wedi anfon ein deiseb yn galw am fwy o weithredu ar filiau ynni i'r Prif Weinidog (a dderbyniodd dros 415,000 o lofnodion). Nawr, i adeiladu ar y momentwm hwn, mae ein ffocws yn ddeublyg: 1) gosod y sylfeini ar gyfer diwygio'r system ynni yn fwy uchelgeisiol gan lywodraeth nesaf y DU, 2) sicrhau enillion tymor byr gan y llywodraeth bresennol yn unol â phedwar galw'r ymgyrch.

Os yw hyn yn swnio'n gyffrous i chi, ac yn cyd-fynd â'r math o newid rydych chi am ei weld, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych. **Mae nifer fach o grantiau ar gael i sefydliadau a grwpiau cymunedol i gyflwyno gweithgareddau a thactegau ymgyrchu sy'n helpu i adeiladu cefnogaeth gyhoeddus a gwleidyddol i'r ymgyrch**. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn cefnogi grwpiau sy'n ymgyrchu ar feysydd tlodi tanwydd, tai, hawliau anabledd, cyfiawnder hinsawdd, iechyd, neu ar atebion amgen (e.e. cydweithfeydd ynni).

Rydym yn cynnig grantiau rhwng £10,000 a £20,000, a'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **5pm, dydd Llun y 27ain o Dachwedd.**

## Sut i wneud cais:

# Warm This Winter

I gael rhagor o fanylion, gan gynnwys ein meini prawf cymhwysedd, pa gymorth sydd ar gael ochr yn ochr â'r grantiau hyn, a sut i wneud cais, gweler y ddogfen hon neu cysylltwch ag info@warmthiswinter.org.uk gydag unrhyw gwestiynau, y byddwn yn hapus i'w hateb. Rydym yn edrych ymlaen at glywed gennych!